



Amgueddfeydd yn Newid Bywydau *Cymru*

“Mae diwylliant yn chwarae rhan ganolog yng Nghymru, drwy dreftadaeth, iaith, tirwedd a thraddodiadau. Yn draddodiadol, mae amgueddfeydd yn fannau lle daw pobl ynghyd i fwynhau arddangosfa, gweithgaredd neu weithdy ond, yn ogystal, gallant sbarduno newid er gwell mewn cymdeithas, gan ysbrydoli ymgysylltu, trafod a myfyrio.

Fwyfwy, mae amgueddfeydd yn hybu defnyddwyr i gymryd rhan weithredol gan fod yn ganolfannau cymunedol deinamig, sy’n dod â gwahanol safbwyntiau ynghyd. Maent yn cefnogi cyd-ddealltwriaeth, gan roi cyfle i ddefnyddwyr gyfrannu, herio a myfyrio.

Mae ein casgliadau yn adrodd straeon mewn ffordd ddifyr ac unigryw. Mae’n ffrainc eu defnyddio, nid yn unig i addysgu neu ddifyrru ond hefyd i wneud gwahaniaeth cadarnhaol i fywydau pobl. Gall hynny fod trwy fynd i’r afael â hiliaeth, cefnogi pobl sy’n byw gyda dementia a’u gofalwyr, meithrin balchder yn ein cymunedau, neu roi llais i grwpiau sydd wedi’u hymyleiddio. Mae amgueddfeydd, fwyfwy, yn lleoedd lle cewch lawenydd a chyfle i fyfyrwyr, cewch eich herio a cheisio dealltwriaeth.

Mae’r astudiaethau achos hyn yn rhoi cipolwg ar y gwaith gwyb a wneir ledled Cymru. Gobeithio y byddant yn ysbrydoli pobl eraill gan helpu i greu mwy o degwch yn y mannau lle rydym yn byw ac yn gweithio. ”

Rhagair

Rachael Rogers, *Is-lywydd*,
Bwrdd Cymdeithas yr Amgueddfeydd a
Rheolwr Amgueddfeydd a’r Celfyddydau,
Amgueddfeydd Treftadaeth MonLife

Ysbrydoli
amgueddfeydd
i newid bywydau

Gwella iechyd a llesiant

- Mae amgueddfeydd yn gwella ansawdd ein bywyd ac yn helpu i wella ein hiechyd – gorff a meddwl.
- Mae amgueddfeydd yn cydweithio â chymunedau a sefydliadau iechyd a llesiant i hybu llesiant amrywiaeth eang o bobl.
- Mae cymryd rhan yng ngwaith yr amgueddfa yn hybu llesiant a hunanhyder ac yn ehangu gwybodaeth a gorwelion y cyfranogwyr, yr amgueddfa a’r cyhoedd yn ehangach.
- Mae amgueddfeydd yn cydnabod anghydraddoldebau iechyd ac yn ymdrechu i’w goresgyn trwy gydweithio a sefydliadau iechyd arbenigol ac amrediad eang o bobl a chymunedau.
- Mae amgueddfeydd yn cefnogi llesiant pawb sy’n gweithio ynddyn nhw a gyda nhw, yn cynnwys staff, gweithwyr llawrydd a gwirfoddolwyr.
- Mae amgueddfeydd yn cydnabod nad ydyn nhw’n fannau diogel i bawb ac maent yn cymryd camau i leihau niwed mewn arddangosfeydd, rhaglenni a gwaith dehongli.

01

Creu mannau gwell a thecach i fyw a gweithio ynddyn nhw

- Mae amgueddfeydd yn ein helpu i werthfawrogi’r mannau yr ydym yn byw ac yn gweithio ynddynt ac yn ymweld â nhw.
- Mae amgueddfeydd yn cydweithio â chymunedau i godi ymwybyddiaeth o’r argyfwng hinsawdd ac i warchod yr amgylchedd.
- Mae amgueddfeydd yn helpu i greu ymdeimlad o berthyn ac yn grymuso pobl trwy ymgysylltu â chymunedau ac annog y cyhoedd i gymryd rhan weithredol mewn penderfyniadau.
- Mae amgueddfeydd yn defnyddio ymgysylltu, dysgu a chasgliadau i greu dealltwriaeth o fewn gwahanol grwpiau mewn cymdeithas a rhyngddynt ac mae’n yn cymryd camau i fynd i’r afael â hiliaeth, ableddiaeth a chamwahaniaethu.
- Mae amgueddfeydd yn gweithio mewn partneriaethau cydradd â grwpiau cymunedol, elusennau a sefydliadau eraill i greu mannau cyhoeddus sy’n agored ac yn hygyrch i bawb.

02

Ysbrydoli ymgysylltu, trafod a myfyrio

- Mae amgueddfeydd yn cydweithio â’r cyhoedd sy’n cymryd rhan weithredol a chreadigol yn y gwaith – gan ddefnyddio casgliadau fel man cychwyn ar gyfer cyfnewid barn, profiadau, syniadau a gwybodaeth.
- Mae amgueddfeydd yn ein helpu i ddeall y byd cymhleth o’n cwmpas a ffeindio’n ffordd trwyddo, gan ein hannog i fyfyrio ar heriau ein hoes fel hiliaeth, camwahaniaethu, tlodi a’r argyfwng hinsawdd ac i weithredu arnynt.
- Mae amgueddfeydd yn cydweithio â phartneriaid cymunedol i ymchwilio i gasgliadau, i herio tybiaethau, i feithrin trafodaeth ac i ysgogi pobl i gyfrannu at newidiadau er gwell yn y byd. Nid lleoedd niwtral ydynt.
- Mae amgueddfeydd yn ysbrydoli dysgu a chreadigrwydd ym mhawb, ac yn ymdrechu i sicrhau bod y cyfleoedd hyn ar gael i amrediad eang o bobl ar bob cam o’u bywyd.

03

Gwella iechyd a llesiant

Men’s Shed

Heneb Gofrestredig

Bryn y Beili

‘Men’s Shed’ unigryw lle defnyddir sgiliau mewn crefftau traddodiadol o Gymru i ddod â dynion ynghyd ar gyfer cyfeillgarwch, cefnogaeth a dysgu.



Nod y mudiad ‘Men’s Sheds’ yw dod â dynion sydd â diddordebau tebyg ynghyd i rannu sgiliau, profiadau a phryderon, ac i gael hwyl.

Sefydlwyd ‘Men’s Shed’ Bryn y Beili, yr Wyddgrug, Sir y Fflint, yn 2023 ac mae’n unigryw gan ei fod yn canolbwyntio ar sgiliau treftadaeth ac yn cyfarfod yn yr awyr agored, ar safle castell mwnt a beili. Rydym yn defnyddio pren o goed y safle ac yn cadw sgiliau traddodiadol Cymreig, fel gwneud cadeiriau ffyn, yn fyw.

Mae’r Shed yn agored i bob dyn rhwng 18 a 90+ oed, ar yr amod eu bod yn gallu symud yn ddigon da i gyrraedd y ffos y castell canoloesol lle maent yn cyfarfod.

Mae pwysigrwydd y sgiliau treftadaeth sy’n gysylltiedig â chasgliad yr amgueddfa yn ganolog i’n gweithgareddau. Mae dynion y Shed yn cwrdd bob wythnos. Pan ddônt gyntaf, mae’r dynion yn gwneud gordd (morthwyl pren), ac yna fainc blaenio deircoes â feis cyn symud ymlaen i wneud cadair ffyn Gymreig. Mae’r dynion yn defnyddio offer llaw a thechnegau traddodiadol, gyda thiwtor medrus yn hwyluso’r cyfan.

Pan holwyd nhw, soniodd pob un o’r dynion am y cyfeillgarwch, y gefnogaeth a’r frawdoliaeth a gânt yn y sesiynau, yn ogystal â’r cyfle i ddysgu sgiliau newydd. Soniodd y dynion i gyd am gynnydd yn eu hunan-fri, eu hymdeimlad o bwrpas a’u gwydnwch emosiynol. Mae’r Shed wedi creu rhwydwaith cefnogi cryf, gan eu helpu i deimlo’n llai ynysig ac annog sgysiau.

Dyma’r unig reswm sydd gan rai ohonynt dros adael y tŷ.

Mae ein llwyddiant wedi dod â’i heriau ei hun. Ar hyn o bryd, mae’n dibynnu’n llwyr ar gyllid allanol. Ychydig iawn o’r aelodau sydd am adael, ac felly mae gennym restr aros hir, ddisymud. Mae galw cynyddol am Shed i fenywod. Cawn geisiadau rheolaidd hefyd i dderbyn pobl ifanc ar leoliadau tymor byr.

Gallai’r atebion gynnwys treialu sesiynau byrrach, rhwng pedwar a chwe mis, i ddynion a menywod, a chynnig cyfleoedd i wahanol oedrannau fel y gall mwy o bobl gymryd rhan. Mae’n nod gennym hefyd i helpu’r aelodau presennol i ddibynnu llai ar gyllid allanol a chreu dyfodol cynaliadwy.

Os hoffech wybod mwy, gwyliwch ein fideo: [In their own words - Reflections on The Bailey Hill Project.](#)

“Glywais i am y Men’s Shed rai wythnosau ar ôl iddo ddechrau. Roedd fy ngwraig wedi marw ychydig cynt, a sylweddolais i mai ei ffrindiau hi oedd llawer o’n ffrindiau ni mewn gwirionedd, a bod y cysylltiad wedi’i dorri. Felly, wnes i greu cysylltiadau newydd â dynion y Men’s Shed ac roedd yn agoriad llygad.”

Roy, sy’n cymryd rhan yn y Men’s Shed

Casgliadau, Cael Sgwrs
a Chreadigrwydd
Treftadaeth MonLife



*Rhaglenni amrywiol sy'n
defnyddio casgliadau amgueddfa
i hybu lles pobl sy'n byw gyda
dementia a'u gofalwyr.*

Mae Treftadaeth MonLife yn cynnig gwahanol weithgareddau'n ymwneud ag atgofion a rhai creadigol ledled Sir Fynwy, o raglenni allanol wedi'u hwyluso i flychau atgofion i'w rhoi ar fenthyg i gartrefi gofal a lleoliadau eraill.

Mae'r rhaglenni ar gyfer oedolion hŷn a phobl sy'n byw gyda dementia a'u gofalwyr yn canolbwyntio ar lesiant. Mae'r gwasanaeth yn defnyddio eitemau traddodiadol ym maes hanes cymdeithasol i sbarduno atgofion ac yn creu copïau o bethau oedd mewn tai slawer dydd, wedi'u seilio ar gasgliadau ein hamgueddfeydd, i roi cyfleoedd i sgwrsio ac ysbrydoliaeth ar gyfer gweithgareddau creadigol.

Mae gweithio mewn partneriaeth yn ganolog i'r gwaith. Mae'r gwasanaeth amgueddfeydd yn cydweithio â'r Cynllun Cenedlaethol i Atgyfeirio Cleifion i Wneud Ymarfer Corff (NERS), a ariennir gan Fwrdd Iechyd Prifysgol Aneurin Bevan, i gynnig rhaglenni 12 wythnos o ymarfer corff ysgafn ac yna weithgareddau gafaél mewn gwrthrychau a gweithgareddau creadigol i bobl sy'n byw gyda dementia a'u gofalwyr. Mewn partneriaeth â Cadw, gwasanaeth amgylchedd hanesyddol Llywodraeth Cymru, rydym hefyd yn cyflwyno sesiwn wythnosol yn nhref Rufeinig Caer-went.



Gyda chyllid gan Ffederasiwn Amgueddfeydd Cymru, fe wnaethom ni ddatblygu Blychau Cof ar themâu penodol yn ddiweddar a gellir eu benthyca o lyfrgelloedd y sir. Maent yn cynnwys gwahanol wrthrychau i afael ynddynt, gwybodaeth am wrthrychau ac awgrymiadau ar gyfer sgysiau ac maent yn hwb i bobl sy'n methu ymuno â rhaglenni rheolaidd i gymryd rhan mewn gweithgareddau atgofion gartref.

Mae ymateb pobl a gymerodd ran mewn rhaglenni allanol yn dangos bod iddynt nifer o fanteision i'w llesiant:

"Gan fod y grwpiau'n fach, roedd yn help i ailadeiladu hyder."

"Roedd yn gyfle i ymlacio, yn hwyl ac yn addysgiadol."

"Mae wedi fy helpu i'n fawr."

"Cwrdd â phobl newydd a mynd allan o'r tŷ."

"Rhywbeth i edrych ymlaen ato."

Building on this experience of working with people living with dementia in the community, MonLife Heritage will be developing a new dementia-friendly gallery in Chepstow Museum from 2026-28, funded by the Welsh Government and Museums Federation Cymru.

Bydd Treftadaeth MonLife yn adeiladu ar y profiad hwn o weithio gyda phobl sy'n byw gyda dementia yn y gymuned, a bydd yn datblygu oriel newydd sy'n ystyriol o ddementia yn Amgueddfa Cas-gwent yn y cyfnod 2026-28, wedi'i hariannu gan Lywodraeth Cymru a Ffederasiwn Amgueddfeydd Cymru.

Byddwn yn ymgynghori â phobl sy'n byw gyda dementia a'u gofalwyr i lywio'r broses o ddewis gwrthrychau ac i sicrhau bod cynnwys yr oriel yn berson-ganolog.

Creu: Pencampwyr
y Gymuned
*Amgueddfa Torfaen
ac Inside Out Cymru*

*Rhaglen gelfyddydol gyfranogol
ar gyfer oedolion sy’n wynebu
rhwystrau i’w llesiant.*

Bu Amgueddfa Torfaen ac Inside Out Cymru yn cydweithio â Building Resilient Communities (BRC) Torfaen i gyflwyno Creu: Pencampwyr y Gymuned.

Ariannwyd y rhaglen gelfyddydau gyfranogol 48 wythnos hon gan Gronfa Gymunedol y Loteri Genedlaethol Cymru. Roedd yn cefnogi oedolion oedd yn wynebu rhwystrau i’w




llesiant, fel ynysu cymdeithasol, niwroamrywiaeth heb gefnogaeth, a chyflyrau iechyd corfforol, trwy weithdai gwneud printiau, cerameg a crefftau yn yr amgueddfa.

Llwyddodd yr aelodau i ddatblygu sgiliau datrys problemau creadigol, gwneud penderfyniadau a gwydnwch, gan gwrdd â phobl o’r un anian a dysgu mwy am eu cymuned. Cawsant eu hannog a’u cefnogi i symud ymlaen gan fanteisio ar gyfleoedd i wirfoddoli ac arwain.

Cafodd y prosiect ei gydgyllunio gyda gweithwyr cymorth BRC Torfaen a defnyddwyr gwasanaethau, a helpodd i benderfynu ar y mathau o gelf a’r fformatau cyflwyno. Bu’r artistiaid proffesiynol Bill Chambers, Rhian Anderson a Nathan Sheen yn hwyluso sesiynau dwyawr eithaf anffurfiol a hyblyg, lle gallai cyfranogwyr ddysgu ar eu cyflymder eu hunain.

Addaswyd y gweithgareddau yn ôl anghenion hygyrchedd a diddordebau’r aelodau. Cafwyd cyfle mewn arddangosfeydd a dathliadau i ddangos beth a gyflawnwyd ac i roi cyfranogwyr mewn cysylltiad â’i gilydd, eu hanwyliaid a mudiadau cymunedol ehangach.

Ar draws y prosiect, bu 28 o unigolion mewn 523 o seesiynau. Dangosodd gwerthusiad fod 100% o’r ymatebwyr wedi mwynhau cymryd rhan, gyda 70% yn teimlo mwy o gysylltiad ag eraill, a 60% yn teimlo’n fwy hyderus, gan ddisgrifio’r sesiynau fel rhai cynhwysol oedd yn rhoi hwb iddynt.



Y tu hwnt i’r canlyniadau hyn ym maes llesiant, aeth tri chyfranogwr ymlaen i rolau Pencampwyr Celfyddydau yn y Gymuned, gan arwain grwpiau crefftau dan arweiniad cymheiriaid, gwneud gwaith creadigol am dâl neu rolau arweinyddiaeth gymunedol.

Dangosodd Creu: Pencampwyr y Gymuned werth rhaglenni creadigol wedi’u cydgyhyrchu, sy’n seiliedig ar le, ac sy’n ennyn diddordeb y gymuned yn eu hanes a’u presennol, gan feithrin hyder a lleihau unigedd.

Ymhlith yr argymhellion pwysig mae sicrhau ymatebolrwydd, cynnal partneriaethau agos a blaenoriaethu cysondeb.

“Wnes i fwynhau rhoi cynnig ar yr holl bethau newydd a ddysgais ac a welais, a chael gwneud rhywbeth ddim ond i mi fy hun. Ro’n i’n hoffi poetsho, cael rhywle i fynd a bod gyda phobl sy’n hoffi’r un pethau â mi.”

Un o gyfranogwyr y rhaglen

*Creu mannau
gwell a thecach
i fyw a gweithio
ynddyn nhw*

Trysori'r Geiriau –
Treasure the Words
Your Voice Advocacy
a Chanolfan Dylan
Thomas

*Prosiect yn Abertawe lle
mae partneriaeth yn defnyddio
casgliadau i sicrhau bod pobl
ag anableddau dysgu yn
cael eu cynrychioli'n well
yn yr amgueddfa.*

Mae yn sefydliad dan arweiniad yr aelodau, sy'n cael ei redeg gan ac ar gyfer pobl ag anableddau dysgu. Mae Canolfan Dylan Thomas (DTC), sy'n cael ei rhedeg gan Gyngor Abertawe, yn gofalu am arddangosfa a rhaglen ymgysylltu Dwlu ar y Geiriau. Gyda'n gilydd, yn 2025, cawsom grant o Gronfa Cymunedau a Chasgliadau Esmée Fairbairn (EFCCF) gan Gymdeithas yr Amgueddfeydd ar gyfer Trysori'r Geiriau – Treasure the Words.

Datblygwyd y prosiect drwy gydweithrediad hirdymor rhyngom. Yn ôl YVA, nid yw pobl ag anableddau dysgu'n cael yr un cyfleoedd ym meysydd diwylliant ac amgueddfeydd â phobl heb anableddau dysgu – ddim fel ymwelwyr nac yn y gweithlu. Fel ymwelwyr, gall arddull a chynnwys gwybodaeth ysgrifenedig fod yn rhwystr i lawer ohonynt. Yn y gweithlu ym Mhrydain, nid yw pobl ag anableddau dysgu'n cael eu cynrychioli'n ddigonol o bell ffordd. Mae llawer ohonynt yn gadael yr ysgol heb gymwysterau, ac felly mae'r rhan fwyaf o swyddi amgueddfeydd y tu hwnt i'w cyrraedd.

Mae amgueddfeydd ar eu colled heb sgiliau a phrofiad pobl ag anableddau dysgu. Fel partneriaeth, teimlem y byddai'n bosibl mynd i'r afael â rhai o'r anghydraddoldebau hyn. Cyfrannodd aelodau o YVA at bob cam o'n cais ar y cyd i'r Gronfa, yn cynnwys sgysiau cychwynnol gyda'r cyllidwr cyn gwneud cais llawn.

Mae'r prosiect yn taclo rhwystrau sy'n atal pobl ag anableddau dysgu rhag cael budd o gasgliad yr amgueddfa o ddefnyddiau llenyddol. Mae hefyd yn rhannu cariad Dylan at eiriau, eu sain a'u hystyr. Rydym wedi creu rolau â thâl yn y Ganolfan ar gyfer oedolion ag anableddau, gyda chefnogaeth swyddi newydd yn YVA a'r Ganolfan.

Rydym wedi ailwampio a chyd-ddylunio ein trefniadau recriwtio er mwyn sicrhau tegwch wrth drefnu lleoliadau gwaith. Bydd y lleoliadau hyn yn ei gwneud yn haws cael budd o'r casgliadau drwy baratoi fersiynau Hawdd eu Deall o deunyddiau dehongli, a bydd modd dysgu sgiliau ffotograffiaeth er mwyn diweddarau a gwella delweddau'r casgliad.

Er mai dim ond rhan o'r ffordd drwy ein prosiect yr ydym, gwelsom lawer o bethau da eisoes. Bydd y rhai sydd ar leoliad gwaith yn creu portffolio o brofiad ac, wrth gael gwaith â thâl, bydd ganddynt fwy o hyder i archwilio cyfleoedd yn y dyfodol. Bydd yr adnoddau a gynhyrchir o fudd i bob ymwelydd. Byddwn yn gweithio hefyd gyda sefydliadau nad ydynt yn defnyddio fformat Hawdd eu Deall, ond sydd wedi mynegi diddordeb mewn bod yn gynulleidfaoedd a chydweithwyr.



Datgloi'r porth byw
i stori llechi Cymru
*Amgueddfa
Lechi Cymru*

Y ffordd mae Amgueddfa Lechi Cymru'n rhoi lle canolog i lais cymunedau lleol mewn prosiect ailddatblygu gwerth miliynau o bunnoedd.

Ym mis Tachwedd 2024, caewyd drysau Amgueddfa Lechi Cymru yn Llanberis, Gwynedd, er mwyn dechrau ar brosiect ailddatblygu uchelgeisiol gwerth miliynau o bunnoedd. Cefnogir y prosiect gan Gronfa Dreftadaeth y Loteri Genedlaethol, Llywodraeth y DU trwy Gyngor Gwynedd, Llywodraeth Cymru ac arianwyr eraill.

Mae tua 13,000 o wrthrychau wedi'u symud dros dro fel y gellir gwneud gwaith cadwraeth, gwella hygyrchedd a chreu cyfleusterau newydd i ymwelwyr. Ein nod yw creu porth o safon fyd-eang i Dirwedd Llechi Gogledd Orllewin Cymru, un o Safleoedd Treftadaeth y Byd UNESCO.

Gan ein bod yn benderfynol o roi llais i gymunedau wrth roi siâp ar yr ailddatblygiad, rydym wedi mynd â'r amgueddfa y tu hwnt i'r waliau, gan sefydlu lleoliadau dros dro yng Nghaernarfon, Llanberis a Chastell Penrhyn, yn ogystal â storfa gasgliadau newydd mynediad-agored ger Bangor. Mae'r rhain yn fannau cychwyn ar gyfer trafodaeth gyda'r gymuned ehangach ynghylch y straeon rydym yn eu hadrodd, y gwrthrychau sy'n taro tant gyda phobl, a ffyrdd newydd o edrych arnynt.



Rydym yn cydweithio â'n cymunedau i greu profiad byw o'r amgueddfa. Datblygwyd ein cymeriadau newydd, Margaret y Matron a Gwen y Forwyn, ar y cyd ag ysgolion lleol. Mae Margaret yn datgelu realiti didostur bywyd y chwarel, a Gwen yn rhoi cipolwg ar y straen o weini yn nhŷ perchennog chwarel tra oedd ei theulu hi'n dioddef. Bydd y cymeriadau hyn, ac eraill, yn rhan ganolog o brofiad pobl o'r amgueddfa pan ailagorwn.

Mae gwirfoddolwyr yn gweithio gyda ni mewn gwahanol ffyrdd, fel ymchwilio i hanesion ymylol a chudd y diwydiant neu weithio ar adfer ein locomotif poblogaidd, Una.

Mae gennym lawer o brosiectau eraill hefyd, fel Cyffwrdd, lle rydym yn defnyddio casgliad synhwyrdd newydd i ymgysylltu â phobl sy'n byw gyda dementia, yn ogystal â phrosiect creadigol sy'n canolbwyntio ar lesiant a chof, mewn ysbytai.

Bydd gwaddol y gwaith ymgysylltu hwn yn plethu storïau'r gymuned i bob elfen o brofiad yr ymwelwyr, gan greu amgueddfa sydd, nid yn unig yn dod ag amlygrwydd rhyngwladol i Gymru, ond sydd hefyd yn *perthyn* i'w chymuned ac yn ei *gwasanaethu*.

Lleisiau Grangetown


Amgueddfa Caerdydd



Prosiect ymgysylltu sy’n grymuso pobl ifanc i gasglu hanesion llafar amrywiol o’u cymunedau nhw eu hunain.

Dechreuodd Lleisiau Grangetown pan gawson ni’n cyflwyno i griw o bobl ifanc o Fforwm Ieuenctid Pafiliwn Grange a chael ein hysbrydoli ganddyn nhw. Ddywedon nhw beth roedden nhw’n ei hoffi neu beidio am amgueddfeydd, a sut y gallai Amgueddfa Caerdydd wasanaethu eu cymuned yn well yn eu barn nhw. Cafodd y bobl ifanc eu grymuso gan y prosiect i gasglu straeon oedd yn berthnasol ac yn golygu rhywbeth iddyn nhw. Y canlyniad oedd casgliad unigryw o hanesion llafar a grëwyd gan y gymuned, yn archwilio un o’r cymunedau mwyaf amrywiol yng Nghymru.

Buon ni’n cydweithio’n agos â’r bobl ifanc i ddatblygu fframwaith ar gyfer cyflwyno’r prosiect, â’r Fforwm Ieuenctid yn arwain pob penderfyniad. Yn ymarferol, roedd hyn yn golygu cyfarfod bob pythefnos ym Mhafiliwn Grange, lle buom yn gweithio mewn partneriaeth i feithrin sgiliau fel casglu hanes llafar a datblygu arddangosfa. Yna, bu’r bobl ifanc yn datblygu themâu er mwyn casglu straeon oedd yn cofnodi rôl eu cymuned yn eu bywydau. Yn ogystal, dewisodd y Fforwm Ieuenctid gomisiynu artistiaid, yn cynnwys darlunwyr a ffotograffwyr, i helpu i roi ffurf weledol i’r hanesion llafar.



Un o ganlyniadau’r prosiect oedd rhoi’r straeon ar gadw, fel bod y cymunedau rydyn ni’n eu gwasanaethu’n cael eu cynrychioli’n well gan gasgliadau Amgueddfa Caerdydd. Roedd y canlyniadau i’r cyhoedd yn cynnwys arddangosfa a guradwyd gan y Fforwm Ieuenctid yn yr amgueddfa, a digwyddiad ym Mhafiliwn Grange yn tynnu sylw at y prosiect.

Y prif beth a ddysgwyd o’r prosiect oedd pwysigrwydd cyd-gynllunio, gan greu gofod a chyfle i’r grŵp fod yn brif benderfynwyr, rhywbeth rydyn ni wedi’i ddatblygu a’i ymgorffori yn ein gwaith cyd-gynhyrchu.



Roedden ni wrth ein bodd pan ymgeisiodd un o’r criw am swydd blaen tŷ ac erbyn hyn mae’n aelod gwerthfawr o dîm yr amgueddfa.

Ariannwyd Lleisiau Grangetown gan Gymdeithas yr Amgueddfeydd Annibynnol i gefnogi cynllun Llywodraeth Cymru, Cynllun Gweithredu Cymru Wrth-hiliol.

Ysbrydoli
ymgysylltu,
trafod a
myfyrio

Pontio Diwylliannau *Amgueddfa ac Oriel Gelf Castell Cyfarthfa*

*Prosiect i asesu cwmpas
casgliadau gan ymgorffori
elfennau gwrth-hiliol drwy
gydweithio.*

Datblygwyd Pontio Diwylliannau fel parhad o Amser Te, sef prosiect a gefnogwyd gan gynllun Llywodraeth Cymru i asesu cwmpas casgliadau er mwyn canfod casgliadau trefedigaethol mewn amgueddfeydd yng Nghymru.

Yn dilyn cais llwyddiannus i Lywodraeth Cymru am grant cyfalaf, bu'r prosiect hwnnw'n canolbwyntio ar gefnogi'r gwaith o gynnal Cynllun Gweithredu Cymru Wrth-hiliol (ArWAP).

Ein nod gyda Pontio Diwylliannau oedd cynnal momentwm Amser Te. Roedd y tîm yn awyddus i weld amcanion cadarnhaol ArWAP yn cael eu hymgorffori yn orielau parhaol

Amgueddfa ac Oriel Gelf Castell Cyfarthfa, yn hytrach na'i drin fel prosiect ar wahân.

Er mwyn cyflawni hyn, aethom ati i gryfhau ein partneriaeth â'r Indian Heritage Centre UK, a sefydlwyd yn ystod prosiect cychwynnol Amser Te. Fel rhan o Pontio Diwylliannau, comisiynwyd yr artist Daniel Trivedy i greu ymateb cyfoes i wrthrychau yn y casgliad oedd wedi dod o India neu'n gysylltiedig ag India.

Roedd cydweithio'n rhan ganolog o'r prosiect – o'r cychwyn cyntaf, cafodd y partneriaid berchnogaeth wirioneddol a chyfle i gyfrannu at y gwaith curadu, gan sicrhau bod eu safbwyntiau'n llywio'r naratif a'r arddangosfa.

Gyda'n gilydd, buom yn archwilio taith te o India i Gymru, gan ystyried effeithiau amgylcheddol a chymdeithasol tyfu te, yn ogystal â thynnu cymariaethau rhwng tocynnau te a thocynnau siopau tryc a ddefnyddid yng nghymunedau diwydiannol de Cymru. Roedd cyswllt rhwng hyn ag arddangosfeydd allweddol eraill yng Nghyfarthfa, ond roedd hefyd yn rhoi cyfle i fwrw goleuni ar dipyn o realiti'r Ymerodraeth.

Drwy gydol y broses hon, gyda'r Indian Heritage Centre, buom yn adolygu'r casgliad ac yn nodi gwrthrychau perthnasol neu, mewn rhai achosion, yn ail-nodi'r rhai a oedd wedi'u labelu'n anghywir. Gyda'n gilydd, llwyddwyd i dynnu sylw at wrthrychau na ddylid eu harddangos oherwydd pryderon diwylliannol ac ystyriaethau fel credoau crefyddol, a'u dogfennu yn unol â hynny yn y cofnod hanesyddol.



Roedd ymgysylltu cymunedol yn rhan allweddol o'r prosiect. Buom yn cydweithio ag ysgolion a grwpiau cymunedol lleol gan gyflwyno gweithdai dawn, llesiant a diwylliant Indiaidd gyda chyfleoedd i sgwrsio dros de a samosas. Roedd y gweithgareddau hyn yn ateb gofynion y Cwricwlwm i Gymru drwy annog dysgu ar draws y dyniaethau a'r celfyddydau mynegiannol gan hyrwyddo dinasyddiaeth foesegol a dealltwriaeth ddiwylliannol.

Arweiniodd y prosiect at arddangosfa barhaol sy'n cyfleu'r daith o Amser Te i Pontio Diwylliannau, gan greu gwaddol hirdymor i ymwelwyr a chymunedau. Un o'r gwersi pwysicaf a ddysgwyd oedd gwerth rhannu awdurdod a chreu gofod i gymunedau lywio'r ffordd y caiff eu straeon eu cyflwyno.

Erbyn hyn mae'r arddangosfa'n ymrwymiad gweladwy i waith dad-drefedigaethu parhaus. Caiff ei hategu gan fap sy'n amlygu o ba rannau o'r byd y daeth casgliadau o'r cyfnod trefedigaethol ac mae'n dal yr amgueddfa'n gyfrifol am barhau â'r gwaith pwysig hwn.

Safbwynt(iau)
Cyngor Celfyddydau
Cymru ac Amgueddfa
Cymru



*Trawsnewid y ffordd mae
sector celfyddydau gweledol
a threftadaeth Cymru’n
cynrychioli amrywiaeth
ddiwylliannol ac ethnig.*

Roedd Safbwynt(iau) yn rhaglen ar y cyd rhwng Cyngor Celfyddydau Cymru ac Amgueddfa Cymru gyda’r nod o drawsnewid y ffordd mae’r sector celfyddydau gweledol a threftadaeth yn cynrychioli amrywiaeth ddiwylliannol ac ethnig y gymdeithas yng Nghymru. Roedd y rhaglen yn cefnogi cynllun Llywodraeth Cymru, Cynllun Gweithredu Cymru Wrth-Hiliol drwy ddatblygu naratifau hanesyddol mwy cynhwysol a dathlu amrywiaeth ddiwylliannol.

Bu gweithwyr creadigol proffesiynol o gefndiroedd diwylliannol ac ethnig amrywiol yn cydweithio â’r saith amgueddfa sy’n rhan o Amgueddfa Cymru ac â sefydliadau celfyddydau gweledol. Gan weithredu fel cyfeillion beirniadol, buont yn archwilio, yn cwestiynu ac yn herio arferion gwaith yn y sefydliadau hynny. Bu iddynt ymgysylltu hefyd â chymunedau llawn amrywiaeth i ganfod safbwyntiau a straeon oedd heb eu hadrodd, gan helpu i lywio eu gwaith a sicrhau newid blaengar ar lefel sefydliad a sector.

Roedd gweithio mewn partneriaeth a chyd-gynhyrchu’n ganolog i’r rhaglen a arweiniodd at gyfres o ddigwyddiadau cyhoeddus ac wyth rhaglen gyhoeddus ehangach, 18 o arddangosfeydd a gyd-gynhyrchwyd, ymyriadau creadigol ac arddangosfeydd a gyrhaeddodd tua 350,000 o bobl ledled Cymru.

Roedd cymunedau’n gallu gweld casgliadau a oedd wedi’u hymyleiddio cynt, a llwyddodd gweithwyr creadigol proffesiynol i feithrin sgiliau, hyder a chyfleoedd newydd.



Yn ogystal, datblygodd staff fwy o hyder, gwybodaeth a gallu i weithio mewn ffyrdd mwy cynhwysol, teg a gwrth-hiliol.

Mae’r hyn a ddysgwyd o Safbwynt(iau) yn cael ei ddefnyddio i ddatblygu sector celfyddydau gweledol a threftadaeth sy’n fwy cynhwysol, teg a chynrychioliadol. Mae’r rhaglen wedi cryfhau perthnasoedd â chymunedau llawn amrywiaeth, wedi creu cyfleoedd newydd i artistiaid sy’n amrywiol eu diwylliant a’u hethnigrwydd, ac wedi ymgorffori egwyddorion gwrth-hiliol yn ein gwaith rhaglennu a dehongli ac wrth wneud penderfyniadau.

Mae agweddau mwy teg at gomisiynu, cyfranogi ac ymgysylltu yn llywio’r gwaith at y dyfodol, ac mae gwybodaeth newydd a grëwyd gan gymunedau a gweithwyr creadigol proffesiynol yn cael ei hymgorffori yn y gwaith o reoli casgliadau.

“Rwy wedi ennill profiad a hyder wrth weithio gydag archifau amgueddfeydd.”

“Fe wnaeth [y prosiect] fy ngalluogi i arbrofi â ffurf a rhyngweithio â’r gynulleidfa mewn ffyrdd nad oeddwn wedi mynd i’r afael â nhw o’r blaen.”

Rhai fu’n cymryd rhan yn y prosiect

Deiseb Heddwch
Menywod Cymru:
Prosiect y
Canmlwyddiant
*Partneriaeth dan
arweiniad Academi
Heddwch Cymru*



*Prosiect cenedlaethol i
hyrwyddo camau at heddwch
mewn cymunedau ledled
Cymru a’r tu hwnt.*

Rhwng 2023 a 2024, bu Academi Heddwch Cymru (sefydliad heddwch cenedlaethol yng Nghymru) yn arwain ac yn rheoli prosiect o bwys o’r enw ‘Hawlio Heddwch’, gyda’r nod o dynnu sylw at ganmlwyddiant Deiseb Heddwch Menywod Cymru (1923-24).

Roedd partneriaid y prosiect, a gefnogwyd gan Gronfa Dreftadaeth y Loteri Genedlaethol, yn cynnwys nifer o grwpiau a sefydliadau cenedlaethol fel Canolfan Materion Rhyngwladol Cymru (Cymru Global erbyn hyn), Archif Menywod Cymru, Sefydliad Smithsonian, Heddwch Nain Mam-gu, Llyfrgell Genedlaethol Cymru, Amgueddfa Cymru, ac eraill.

Rhwng 1923 ac 1924, llofnododd 390,296 o fenywod o Gymru – tua thraean poblogaeth fenywaidd y wlad ar y pryd – apel at fenywod Unol Daleithiau America yn galw am heddwch byd-eang yn dilyn erchyllterau’r Rhyfel Byd Cyntaf.

Bu prosiect Hawlio Heddwch yn gweithio’n galed er mwyn cofio, dathlu a gwireddu breuddwydion y menywod rhyfeddol hynny oedd yn llysgenhadon heddwch ganrif yn ôl. Defnyddiwyd gwaddol y ddeiseb i hyrwyddo’r gwaith o greu heddwch heddiw mewn cymunedau ledled Cymru ac yn rhyngwladol.

Fel rhan o’r prosiect, cyflwynodd Sefydliad Smithsonian yn Washington, UDA, y ddeiseb a’r gist dderw wreiddiol i Lyfrgell Genedlaethol Cymru, Aberystwyth; cynhaliwyd sgysiau, gweithdai a chynadleddau; trawsgrifiwyd ymatebion creadigol i’r stori; a datgelwyd hanesion cudd – rhai yn ymwneud â hynafiaid, cymunedau, y genedl a’r byd.

Daeth rhai a fu’n cymryd rhan ar draws gwybodaeth am hynafiaid ac unigolion o’u cymunedau eu hunain, a chyfrannu at ailddarganfod straeon cenhedlaeth o fenywod Cymru – rhai ohonynt wedi’u harchifo ar wefan Casgliad y Werin Cymru. Yn ôl gwerthusiad annibynnol o’r prosiect, roedd 91% o’r 48 o bobl a gafodd eu cyfweld wedi dod i ddeall mwy am hanes menywod yng Nghymru.

Cafodd adnoddau ac offer addysgol eu creu a chânt eu defnyddio mewn ysgolion cynradd ac uwchradd i gyflwyno’r enghraifft hon o dreftadaeth heddwch Cymru i genhedlaeth newydd o blant a phobl ifanc, ac i’w hysbrydoli i ddysgu mwy a chymryd camau dros heddwch eu hunain.

Mae’r hanes hwn, a fu gynt yn gudd, bellach yn anadlu bywyd i weledigaeth menywod Cymru, oedd yn dyheu am greu “treftadaeth falch o fyd heb ryfel”.

Dyma fu’n ysbrydoliaeth i greu Rhwydwaith Gwireddu – gofod i bobl sydd wedi’u hysgogi gan Ddeiseb Heddwch Menywod Cymru i ddod at ei gilydd i weithio tuag at weledigaeth o Gymru fel Cenedl Heddwch.

Mae gwledydd eraill sy’n dilyn y model Cenedl Heddwch, fel Norwy, Sweden a’r Swistir, yn gweld heddwch fel rhywbeth sy’n esblygu fel rhan o ddeialog genedlaethol; a’i nodwedd allweddol yw’r ffordd y maent yn cynnal perthnasoedd, yn eu gwlad eu hunain ac yn rhyngwladol.

Byddai dod yn Genedl Heddwch yn cael effaith gadarnhaol ar y ffordd y mae Cymru’n ei llywodraethu ei hun fel cenedl ddatganoledig, amrywiol ei chymunedau a’i diddordebau. Byddai hyn, yn ei dro, yn ysgogi trafodaethau ynghylch cymunedau heddychlun a chydlyniant.

Byddai dod yn Genedl Heddwch o werth cynhenid ond, yn ogystal ac yn fwy na dim, mae i hyrwyddo ac eiriol dros heddwch werth yn ei hawl ei hun.

Gwylwch ein ffilm sy’n crynhoi ysbryd y prosiect: *Byd Heb Ryfel / A Warless World - YouTube*

Image credits

© Sarahjayne Clements / © LGJones / © Museum of Cardiff Jack Skivens / © Museum of Cardiff & Glenn Edwards / © Nasia Sarwar / © Sophie Mak-Schram / © Museum of Cardiff.